

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Mehefin 2017

Annwyl Lywydd

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Amserlen ar gyfer trafodion Cyfnod 1 a 2

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn am estyniad i'r amserlen y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i chytuno ar gyfer ystyried Cyfnod 1 a 2 o'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

Y rhesymau dros ymestyn y dyddiad cau

Cyn cyflwyno'r Bil, cytunodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r dyddiad cau arfaethedig ar gyfer Cyfnod 1, a oedd yn cynnwys 10 wythnos eistedd, ar y sail bod Llywodraeth Cymru wedi ei ddisgrifio fel 'Bil technegol yn bennaf' a oedd ond yn 13 adran o hyd.

Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y Bil, cyfeiriodd y Memorandwm Esboniadol yn sylweddol at berthynas agos y Bil â'r cynnig peilot gofal plant presennol, ac addewid maniffesto Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynnig hwn ledled Cymru. O ganlyniad, mae cyfran sylweddol o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor wedi ymwneud ag agweddau perthnasol o'r cynnig gofal plant.

Er mwyn deall egwyddorion cyffredinol y Bil yn llawn, ac er mwyn sicrhau gwaith craffu llawn, priodol a thryloyw o'i bwrpas a'i effaith, roedd angen i'r Pwyllgor gymryd mwy o dystiolaeth lafar nag a ragwelwyd yn y lle cyntaf. At hynny, mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn hanfodol darparu amser digonol i ganiatáu ystyriaeth lawn ac effeithiol o dystiolaeth Cyfnod 1, er mwyn sicrhau bod ei ganfyddiadau a'i



argymhellion mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'u heffaith yn gadarn a thrylwyr.

Amserlen gyffredinol ar gyfer y Bil


Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ymestyn dyddiad cau adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor o ddydd Gwener 6 Gorffennaf 2018 i ddydd Mercher 18 Gorffennaf 2018 er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion mwy cymhleth yn llawn o ganlyniad i gyfeiriadau'r Memorandwm Esboniadol at y cynnig gofal plant. Byddai hyn yn golygu aildrefnu dadl Cyfnod 1 o wythnos olaf tymor yr haf (17 Gorffennaf 2018) i wythnos gyntaf tymor yr hydref (18 Medi 2018).

Er mwyn cadw at ofynion y Rheol Sefydlog a chaniatáu yr un faint o amser â'r hyn a ddarperir yn yr amserlen wreiddiol i'r Gweinidog a'r Aelodau gymryd rhan yn y cyfnodau diwygio, byddwn yn ddiolchgar pe baech hefyd yn ystyried rhoi estyniad o bythefnos i'r amserlen ar gyfer Cyfnod 2 fel y gellir cwblhau'r trafodion erbyn 26 Hydref 2018. Byddai'r estyniad hwn yn dal i alluogi Cyfnodau 3 a 4 i gael eu cwblhau cyn toriad y Nadolig, a cheisio am Gydsyniad Brenhinol erbyn mis Ionawr 2019 yn unol â bwriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru.

Felly, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cais hwn yn ffafriol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC

Cadeirydd

